TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Foundation Degree Analytical and Forensic Science

Yn gryno

Bydd y radd sylfaen yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau ymchwilio gwyddonol yn y labordy o fewn gwyddoniaeth gemegol a biolegol, gan ganolbwyntio ar gymhwyso'r syniadau hynny mewn ymchwilio safleoedd trosedd a thystiolaeth fforensig.

Dyma'r cwrs i chi os...

...Oes gennych ddiddordeb brwd mewn gwyddor fforensig

...Rydych eisiau datblygu eich sgiliau ymarferol

...Rydych eisiau paratoi at fyd gwaith gwyddor fforensig

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae gwyddor fforensig yn bwnc cyffrous sy'n mynd yn fwyfwy poblogaidd, ac mae'r cwrs hwn wedi ei ddatblygu gyda chyflogadwyedd mewn meddwl. Byddwch yn astudio llu o destunau

gwahanol o feysydd dadansoddi biocemegol, biolegol, cemegol yn ogystal â biotechnoleg. Mae pwyslais at ddatblygu sgiliau ymarferol er mwyn sicrhau eich bod yn barod am gyflogaeth o fewn amryw o ddisgyblaethau gwyddonol. Byddwch yn cael mewnwelediad i waith fforensig, yn dysgu sut i ymchwilio safle trosedd a dadansoddi tystiolaeth, ac mae'r cwrs hefyd yn ymdrin ag agweddau o seicoleg a'r gyfraith mewn perthynas â throsedd.

Byddwch yn dysgu am ymchwilio safle trosedd a chasglu tystiolaeth mewn modd proffesiynol, dulliau dadansoddi yn ogystal â'r wyddoniaeth a ddefnyddir yn ystod y broses. Yn ogystal â'r modiwlau sy'n ymdrin â bioleg gellog a moleciwlaidd, cemeg fforensig a thechnegau biodadansoddol, mae modiwl mewn proffilio a thechnegau ymchwilio.

Cewch eich addysgu gan arbenigwyr pwnc sy'n defnyddio amryw o weithgareddau gwahanol; gwaith labordy ymarferol, darlithoedd, gweithdai, tiwtorialau a chasgliad o waith dadansoddi tystiolaeth o safleoedd trosedd ffug. Byddwch yn defnyddio offer modern, ac yn ystod yr ail flwyddyn, byddwch yn treulio amser ar leoliad neu yn ymchwilio o leiaf un gweithle gwyddonol priodol.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Mae angen ichi fod â diddordeb brwd mewn gwyddoniaeth a'r brwdfrydedd a'r ysfa i ddatblygu eich sgiliau ymarferol a dadansoddol. Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol. Mae dangos parch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunan gymhelliant yn nodweddion hanfodol rydym yn disgwyl eu gweld ym mhob un o'n dysgwyr. Mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Dylai'r cwrs hwn roi sail ichi geisio swyddi lefel mynediad yn y maes gwyddoniaeth ddadansoddol, gan gynnwys swyddi technegol. Dylai'r cwrs hwn hefyd roi'r cyfle ichi geisio swyddi o fewn y sector cyfiawnder troseddol ehangach.

Cwrs ychwanegol BSc (Anrh) Gwyddor Fforensig a Dadansoddol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r cwrs hwn wedi ei freinio gan Brifysgol De Cymru.

Cod UCAS FF41